AMGUEDDFA CYMRU

# Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr – Cofnodion

**Dydd Iau 18 Medi 2025 am 12:35 – 17:00**

**Eglwys Sant Cadog, Stryd Fawr, Caerllion, Casnewydd, NP18 1AZ**

**Ymddiheuriadau:**

***John Hunt, Ymddiriedolwr***
***Abigail Lawrence, Ymddiriedolwr***
***Richard Thomas, Ymddiriedolwr***
***Emma Yhnell, Ymddiriedolwr***

**Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:**

*Kate Eden*
***Rhys Evans***
***Hywel John***
***Owen Hathway***
***Llion Iwan***
***David Aled Jones***
***Dan Richards***
***Freya Stannard***
***Jan Williams***
***Cai Wilshaw***

**Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:**

***Jane Richardson, Prif Weithredwr***
***Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth***
***Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil***
***Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido***
***Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau***
***Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu***

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**
***Paul Kindred, Llywodraeth Cymru***
***Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu***
***Ioan Davies (Cyfieithydd)***

---

## 1. Agor y Cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
II. Datganodd Dan Richards, Ymddiriedolwr, a David Jones, Ymddiriedolwr, fuddiant yn Eitem 3 ar yr Agenda. Ni roddwyd gwybod i'r Cadeirydd am unrhyw ddatganiadau ychwanegol o fuddiant.
III. Diolchodd y Cadeirydd i Dai Price, Pennaeth Safle, a Dr Mark Lewis, Uwch-guradur: Archaeoleg Rufeinig, am y daith o gwmpas Amgueddfa Lleng Rhufeinig Cymru y bore hwnnw ac am y drafodaeth a gafwyd ynglŷn â'r prosiect mewn partneriaeth â CADW a Chyngor Dinas Casnewydd.

---

## 2. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jane Richardson, Prif Weithredwr, a ddywedodd y canlynol:
    i. Byddai les ffisegol safle Amgueddfa Lechi Cymru yn cael ei hymestyn i gynnwys ar ardal agored o flaen yr amgueddfa a darn llai o dir lle y byddai is-orsaf drydanol newydd ar gyfer y safle yn cael ei hadeiladu. Byddai hyn yn golygu bod modd cyflawni'r prosiect yn ymarferol, ac yn arwain at gyfleoedd dehongli ychwanegol.
    ii. Roedd prosiect NMC 100 wedi bod drwy ei Adolygiad Gateway cyntaf ac wedi cael sgôr Oren.
    iii. Roedd y gwaith ffilmio ar gyfer y rhaglen ddogfen arbennig gan y BBC a fyddai'n cyd-fynd ag arddangosfa Gwen John wedi dechrau. Roedd gweithiau celf a gafwyd ar fenthyg gan sefydliadau eraill ar gyfer yr arddangosfa wedi dechrau cyrraedd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
    i. Roedd gwaith celf gan Giorgio Morandi, yr oedd y broses o'i dderbyn i'r casgliad wedi cael ei chwblhau, wedi bod yn cael ei arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar fenthyciad byrdymor, ac roedd y perchnogion wedi cynnig cyfle i'w brynu.
    ii. Roedd oedran y seilwaith yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn golygu nad oedd achos arall o gau'r safle'n annisgwyl yn annhebygol yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd fframwaith cyfathrebu mwy cadarn wedi cael ei baratoi, ynghyd â phrofion straen ar gyfer senarios posibl.

iii. Byddai trefniadau ar alwad yn cael eu haddasu er mwyn i fwy o staff fod ar alwad yn unol â'u contractau. Byddai hyn yn sicrhau system ar alwad fwy cadarn na fyddai'n dibynnu ar nifer bach o unigolion.

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

### 3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Gan eu bod wedi datgan buddiant yn yr eitem hon ar yr agenda, gadawodd Daniel Richards, Ymddiriedolwr, a David Jones, Ymddiriedolwr, y cyfarfod tan ar ôl yr eitem hon.

II. Cyflwynwyd yr eitem gan Kate Eden, Cadeirydd, a ddywedodd y canlynol:

  i. Roedd Ameerah Mai wedi ymddiswyddo fel aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar ddiwedd mis Awst, er ei bod wedi cytuno i weithredu fel Mentor Cenedlaethau'r Dyfodol i Amgueddfa Cymru o hynny ymlaen, ac roedd y Cadeirydd yn ddiolchgar iawn iddi am hynny. Roedd Llion Iwan wedi rhoi gwybod ei fod yn bwriadu ymddiswyddo ar ddiwedd mis Medi, a chyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2025 fyddai ei gyfarfod olaf.

  ii. Ceisiwyd cymeradwyaeth i benodi Dan Richards, Ymddiriedolwr, a David Jones, Ymddiriedolwr, i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Amgueddfa Lechi Cymru, i lenwi'r bylchau a grëwyd yn sgil ymddiswyddiadau Ameerah Mai a Llion Iwan.

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

  i. Nodwyd pryder ynglŷn â'r ffaith bod yr adroddiad yn dweud bod tâl y Cadeirydd am dri diwrnod yr wythnos bellach wedi dod i ben, a bod yr amser y telir amdano wedi dychwelyd i ddau ddiwrnod yr wythnos. Roedd achos busnes dros barhau â'r tâl am dri diwrnod yr wythnos wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n cael ei gyfeirio'n ffurfiol at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus i gael ei gyngor, am ei bod yn teimlo y gallai hyn gael ei weld fel newid sylweddol i benodiad. Ar hyn o bryd, nid oedd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus eto gan fod cais wedi cael ei wneud am wybodaeth ychwanegol gan gydweithwyr yn Amgueddfa Cymru. Byddai diweddariadau'n dilyn maes o law.

  ii. Gwnaed cais i wybodaeth am y broses o adolygu Penodiadau Cyhoeddus gael ei rhannu â'r Ymddiriedolwyr er mwyn iddi fod yn glir beth oedd dull Llywodraeth Cymru o adolygu telerau penodiadau gan gynnwys gwerthuso'r gofyniad amser, nifer y diwrnodau y telir amdanynt ac unrhyw newidiadau arfaethedig i ymrwymiad amser.

**CAM GWEITHREDU**: Byddai Paul Kindred, Llywodraeth Cymru, yn cysylltu â'r Uned Cyrff Cyhoeddus ac yn gofyn am wybodaeth am y broses a ddefnyddir i benderfynu ar ymrwymiad amser a newidiadau i hyn. (PK)

iii. Dylai ymrwymiad amser y Cadeirydd a'r effaith gysylltiedig bosibl ar lywodraethu gael eu hychwanegu at Gofrestr Risg Amgueddfa Cymru.

**CAM GWEITHREDU**: Ymrwymiad amser y Cadeirydd i gael ei ychwanegu at Gofrestr Risg Amgueddfa Cymru (SH)

iv. Byddai'n fuddiol i'r Ymddiriedolwyr gael eu briffio cyn digwyddiadau mawr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o strategaeth gyfathrebu a negeseuon Amgueddfa Cymru ynghylch materion o bwys.

v. Er bod presenoldeb ym mhob digwyddiad allanol wedi cael ei leihau fel rhan o raglen Llywio Ein Dyfodol, tynnwyd sylw at y ffaith bod absenoldeb stondin Amgueddfa Cymru yn yr Eisteddfod wedi cael ei nodi. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y byddai mynd i'r Eisteddfod, gan gynnwys talu am stondin, amser staff a chostau ychwanegol, wedi bod yn ddrud iawn, gan gostio tua £50,000.

vi. Gofynnwyd pe gellid ailystyried cael stondin yn yr Eisteddfod, naill ai'n unigol fel Amgueddfa Cymru neu fel rhan o stondin gyfunol ehangach ar gyfer y sector treftadaeth.

vii. Mewn ymateb i hynny, pwysleisiwyd bod Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu ffyrdd mwy ystyrlon o ymgysylltu â'r Eisteddfod a bod y tîm Cysylltiadau Allanol wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr yn yr Eisteddfod ac wedi bod yn rhan o gyfarfodydd rhannu gwybodaeth lle y trafodwyd themâu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

viii. Nodwyd y byddai'n fuddiol i'r Ymddiriedolwyr gyflwyno awgrymiadau ar gyfer pethau y gellid eu dadflaenoriaethu, ochr yn ochr â thrafodaethau'r Uwch-dîm Arwain.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD penodiad Dan Richards, Ymddiriedolwr, a David Jones, Ymddiriedolwr, i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Amgueddfa Lechi Cymru.**

**NODWYD yr eitem gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

## 4. Adolygiad Rheoli Casgliadau – Diweddariad

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a ddywedodd y canlynol:

i. Gan mai dim ond sicrwydd rhannol y bu modd i'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC) ei gael ynghylch yr Adolygiad Rheoli Casgliadau a gyflwynwyd yn ei gyfarfod ar 4 Medi 2025, roedd yr eitem wedi cael ei dychwelyd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ynghyd â gwybodaeth ychwanegol er sicrwydd.

ii. Roedd gwaith dan arweiniad y Prif Gadwraethydd wedi bod yn drawsnewidiol o ran mynd i'r afael â'r materion yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw ac ad-drefnu'r casgliadau yno. Hefyd, roedd

gwaith awyru wedi gwella'r amodau amgylcheddol ar y safle, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y to.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Er mwyn asesu addasrwydd hirdymor safle'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol, y cam cyntaf fyddai archwilio'r arolwg cyflwr, yn ogystal â chynnal asesiad i weld i ba raddau y mae dŵr wedi treiddio i ôl troed concrit y safle. Gan y byddai hyn o fewn cylch gwaith y Rheolwr Cynllunio Casgliadau, sy'n swydd wag, dim ond gwelliannau hanfodol fyddai'n cael eu gwneud nes bod y swydd honno wedi'i llenwi, er mwyn sicrhau asesiad cyson, strategol a chyfannol o'r sefyllfa.

ii. Roedd adnoddau digonol eisoes yn eu lle er mwyn ymateb i'r argymhellion yn yr Adolygiad Rheoli Casgliadau a oedd yn gofyn am weithredu ar unwaith.

iii. Gwnaed cais i'r Cyfarwyddwyr Casgliadau ac Ymchwil gylchredeg nodyn, yn dilyn ei hymweliad â chyfleuster East Storehouse y V&A a oedd wedi'i drefnu, er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r Ymddiriedolwyr a'u hysbysu ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau y dylai Amgueddfa Cymru eu cadw mewn cof wrth gynllunio ei threfniadau storio casgliadau ei hun ar gyfer y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU**: Nodyn i gael ei gylchredeg ar ôl yr ymweliad â'r V&A er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r Bwrdd. (KD)

iv. Byddai eitemau sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Rheoli Casgliadau'n parhau i gael eu goruchwylio gan FPCC a byddent yn dychwelyd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr pe bai carreg filltir arwyddocaol i'w rhannu neu risg i'w chodi, neu pan fyddai angen i FPCC gael cymeradwyaeth ar lefel y Bwrdd ar gyfer gweithgarwch.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**5. Diweddariad Iechyd a Diogelwch**

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a ddywedodd y canlynol:

i. Roedd camau gweithredu dilynol a gymerwyd ar ôl i'r risgiau iechyd a diogelwch gael eu darganfod yn labordai Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi cael eu rhoi ar waith ac wedi cael ymateb da. Roedd rhestr gyflawn o'r cemegion sy'n ofynnol ar y safle wedi cael ei llunio, roedd hyfforddiant wedi cael ei gynnal ar gyfer yr holl staff perthnasol ac roedd offer iechyd a diogelwch, megis pecynnau gorlif, wedi cael eu prynu.

ii. Phil Bushby a oedd yn arwain yr ymateb, ac roedd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r timau perthnasol, yn ogystal â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r mater. Roedd yn debygol y byddai'r Grŵp Gorchwyl a

Gorffen yn cael ei ddirwyn i ben yn ystod y mis nesaf gan fod ei amcanion wedi cael eu cyflawni.

iii. Roedd cyfathrebu rheolaidd wedi digwydd â'r staff yn ehangach ynghylch y mater ac roedd yr undebau llafur wedi bod yn rhan o drafodaethau a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Hefyd, roedd ymarfer yn cael ei baratoi er mwyn nodi'r gwersi a ddysgwyd.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Byddai cyfarfod chwarterol y Grŵp Polisi Iechyd a Diogelwch yn monitro newidiadau i ddeddfwriaeth a all effeithio ar rannau o'r busnes yn y dyfodol.

ii. Nododd yr Ymddiriedolwyr y gallent gymryd sicrwydd ynghylch y gwaith a oedd yn cael ei wneud, ond roeddent am gael sicrwydd pellach ynghylch lefel hyder y Cyfarwyddwyr bod y staff wir yn deall pwysigrwydd iechyd a diogelwch fel mater allweddol sy'n ymwneud â newid diwylliannol. Dywedodd y Cyfarwyddwyr fod dealltwriaeth y staff o faterion iechyd a diogelwch a oedd yn gysylltiedig â'r labordai bellach yn llawer cryfach, a bod gofal wedi cael ei gymryd i sicrhau bod aelodau o'r staff a heriodd newidiadau i arferion i ddechrau yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

iii. Roedd adnoddau iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r adnoddau ychwanegol a oedd yn ofynnol ar gyfer gofal casgliadau, archifau corfforaethol, llywodraethu, NMC 100, a'r prosiect uwchraddio systemau corffo raethol.

iv. Roedd materion hanesyddol mewn perthynas ag arferion Amgueddfa Cymru'n dod i'r amlwg drwy gynnal achrediadau mewn meysydd penodol a gweithgarwch archwilio. Yr enghraifft fwyaf o arferion anfoddhaol a welwyd oedd pan fyddai staff yn camu i mewn i rolau arwain mewn meysydd a oedd wedi cael eu harwain yn wannach yn y gorffennol, os o gwbl. Roedd yn debygol y byddai rhagor o arferion gwael hanesyddol yn cael eu darganfod dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, ond roedd pob mater o'r fath yn gyfle i ddysgu gwersi a fyddai'n atgyfnerthu'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

v. Roedd newid strwythur y sefydliad er mwyn gwneud Penaethiaid Safle yn atebol am yr holl weithgarwch a gynhelir ar eu safleoedd penodol wedi gwella amser cwblhau ac effeithiolrwydd camau a gymerir i ymateb i faterion pan gânt eu darganfod.

vi. Canmolwyd natur agored y diwylliant o ran tynnu sylw'r Bwrdd at faterion, a nodwyd bod y ffordd ragweithiol roedd yr Uwch-dîm Arwain yn delio â materion a ddarganfyddir yn rhoi sicrwydd sylweddol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

## 6. Diweddariad Ariannol

### 6.1 Adroddiad Ariannol Diwedd Mis

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a ddywedodd y canlynol:
   i. Byddai adolygiadau manylach o sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnal ym mis Medi a mis Hydref 2025.
   ii. Roedd mymryn o danwariant i'w weld yn y sefyllfa yn ystod y flwyddyn ar hyn o bryd, ond roedd y Tîm Cyllid yn hyderus y byddai'r holl Gymorth Grant yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
   iii. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau faint o Gymorth Grant ychwanegol a fyddai'n dod i law er mwyn talu am y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu am recriwtio i swyddi sy'n flaenoriaeth.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Byddai'n fuddiol i'r Ymddiriedolwyr weld y gyllideb sbesimenau er mwyn gallu cael sicrwydd bod digon o arian ar gael i dyfu'r casgliadau.

**CAM GWEITHREDU**: Y gyllideb sbesimenau a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill i gael eu hychwanegu at agenda cyfarfod nesaf FPCC (CJP)

   ii. Eglurwyd nad oedd y cais cyfalaf am £3,700,000 ar gyfer NMC 100 wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru eto ac mai cais cyfalaf am £2,500,000 ar gyfer prosiectau yn Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau oedd yr un a oedd eisoes wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Hefyd, eglurwyd y byddai'r £500,000 o gyllid cyfalaf ychwanegol a allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru ar wahân i Gymorth Grant cyfalaf.
   iii. Gellid sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i ryddhau cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf gwerth hyd at £2,000,000 drwy gyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes. Gan fod y cais am £3,700,000 ar gyfer NMC 100 yn fwy, roedd yn aros am gymeradwyaeth ychwanegol, yn sgil cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol a'r Adolygiad Gateway diweddar.
   iv. Roedd tua £15–16,000,000 o gyllideb gyfalaf ychwanegol wedi dod i law neu'n ddisgwyliedig ar gyfer 2025/26, ac roedd angen rheoli gofalus er mwyn sicrhau y byddai'r holl arian ychwanegol hwn yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

### 6.2 Cymeradwyo Ffi Ychwanegol Archwilio Cymru

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a ddywedodd y canlynol:
   i. Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem hon yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) ar 24 Gorffennaf 2025, argymhellwyd y dylid ei chymeradwyo.

ii. Ar ôl i'r Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer ARAC gael ei gymeradwyo, byddai'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ffioedd ychwanegol i Archwilio Cymru yn y dyfodol yn cael ei drosglwyddo i ARAC.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y ffi ychwanegol i Archwilio Cymru.**

### 6.3 Cyfle Twf ar gyfer Mentrau

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd yr eitem hon wedi cael ei thrafod yng nghyfarfod FPCC ar 4 Medi 2025, lle yr argymhellodd y Pwyllgor y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gymeradwyo'r cynnig.
   ii. Roedd y Tîm Mentrau wedi asesu hyfywedd y cyfle a'r risgiau posibl ac roedd FPCC wedi cael sicrwydd na fyddai dim risgiau ychwanegol i Amgueddfa Cymru pe bai'r gwaith newydd hwn yn cael ei wneud.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Yn draddodiadol, roedd y sector diwylliannol wedi ei chael hi'n anodd ymgymryd â gweithgarwch cydweithredol ac roedd y cyfle i dîm Mentrau Amgueddfa Cymru ddarparu gwasanaethau arlwyo ar safleoedd CADW yn gyfle ardderchog i gydweithio â phartneriaid diwylliannol mewn ffordd a fyddai'n cael effaith.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y Cyfle Twf ar gyfer Mentrau gyda CADW.**

---

## 7. Diweddariad ar Ddad-drefedigaethu Casgliadau ac Adeiladau Amgueddfa Cymru

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd y gweithgarwch a oedd wedi'i amlinellu yn y papur yn dangos mor integredig a hirsefydlog oedd gwaith dad-drefedigaethu yn Amgueddfa Cymru.
   ii. Fel rhan o'r gwaith hwn, roedd prosiect Safbwynt(iau) wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Roedd y gwaith yn dangos dull cytbwys a chymesur o ymdrin â maes a oedd yn aml yn cael ei orsymleiddio. Teimlai'r Ymddiriedolwyr y byddai'r dull mwy cynnil hwn yn fuddiol i Amgueddfa Cymru.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

**8. Diweddariad Trwyddedu Brand ar Lyfrgell Luniau Amgueddfa Cymru**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, Becky Brumbill, Swyddog Rheoli Delweddau a Maeve Cosovic, Swyddog Datblygu Trwyddedu Brand

I. Oherwydd absenoldeb aelodau o'r staff i gyflwyno'r eitem hon, penderfynwyd ymdrin â hi mewn cyfarfod Bwrdd neu gyfarfod briffio yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU:** Diweddariad Trwyddedu Brand, gan gynnwys Llyfrgell Luniau Amgueddfa Cymru, i gael ei ychwanegu at gyfarfod Bwrdd neu gyfarfod briffio yn y dyfodol (CJP).

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**9. Eitemau i'w Dileu o'r Casgliadau**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitemau i'w dileu o'r casgliadau gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nodwyd eu bod fel a ganlyn:
    i. Yr Adran Diwydiant
        a. Rhif derbyn 78.74i Corff cerbyd brêc teithwyr/cerbyd parseli Rheilffordd Rhymni
        b. Rhif derbyn 86.117i Corff cerbyd brêc/3ydd cerbyd Rheilffordd Cambria
        c. Rhif derbyn 78.21l/2 Cerbyd cyfansawdd (1af/3ydd) rhif 51 Rheilffordd Dyffryn Taf
        d. Rhif derbyn 1997.208 Cerbyd cyfansawdd coridor rhannol (1af/3ydd) rhif 238 Rheilffordd Cambria
        e. Rhif derbyn 1999.7 Isffram cerbyd teithwyr chwe olwyn rhif E70670 British Railways
        f. Rhif derbyn 73.6I Locomotif diesel 3'0" o led, 11/13hp, Rushton & Hornsby
        g. Rhif derbyn 69.297 Craen loco stêm pedair olwyn pum tunnell a adeiladwyd gan Thomas Smith & Sons (Rodley) Ltd, Leeds, 1925, rhif adeiladwr 10,373
        h. Rhif derbyn 78.116i Tryc siyntiwr Great Western Railway (rhif anhysbys, dyddiad ac adeiladwr anhysbys)
        i. Rhif derbyn 90.57i 0-4-0 Locomotif di-dân, dienw a ddefnyddiwyd gan Waith Cemegol Casnewydd ac a adeiladwyd gan Andrew Barclay, Sons & Co Ltd, Kilmarnock, 1929, rhif adeiladwr 1,966
        j. Rhif derbyn 88.38i 0-4-0 Locomotif di-dân "Rhif 1" a ddefnyddiwyd yng Ngwaith Cemegol y Barri ac a adeiladwyd gan Andrew Barclay, Sons & Co Ltd, Kilmarnock, 1948, rhif adeiladwr 2,238

k. Rhif derbyn 1997.98/1 a /2 Craen llaw chwe thunnell (/1) a thryc cyfatebol (/2) Great Western Railway
l. Rhif derbyn 88.37i Wagen tanc tar silindrog rhif 7,328 y Bwrdd Glo Cenedlaethol a adeiladwyd yn 1940 gan Cambrian Wagon Works Ltd, Caerdydd
m. Rhif derbyn 2016.95/1 Locomotif mwynglawdd batri pedair olwyn, 2'0" o led, o Fwynglawdd Haematit Llanhari, Morgannwg, rhif rhedeg 4; adeiladwyd yn 1962/63 gan Greenwood & Batley Ltd, Leeds, rhif gwneuthurwr anhysbys.

ii. Hanes a Datblygu Casgliadau
   a. Rhif derbyn F10.45.5 – Bag plastig archfarchnad tafladwy ysgafn gwyn. Llythrennau a brandio gwyrdd a choch
   b. Rhif derbyn F10.45.8 – Bag plastig archfarchnad tafladwy ysgafn gwyn â llythrennau a brandio glas a choch
   c. Rhif derbyn F10.45.10 – Bag plastig siop drwyddedig tafladwy ysgafn melyn â llythrennau glas.

iii. Gwyddorau Naturiol
   a. Rhif derbyn 48.264.GR.93 Sbesimen barytes o Lantrisant (1 sbesimen, 2 ran)
   b. Rhif derbyn 98.3G.M.94 Sbesimen sffalerit, Mwynglawdd Nant-y-creiau.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y cynnig i'r eitemau a amlinellir yn y papur gael eu dileu o'r casgliadau.**

---

### 10. Diweddariad ar Brosiect Canmlwyddiant Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (NMC 100)

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd Adolygiad Gateway cyntaf prosiect NMC 100 wedi cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 15 Medi 2025, gan arwain at sgôr Oren.
   ii. Diffinnir sgôr oren fel "*Successful delivery appears feasible but significant issues already exist requiring management attention. These appear resolvable at this stage and, if addressed promptly, should not present a cost/schedule overrun*."
   iii. Byddai'r grant cyfalaf ychwanegol o £3,700,000, ar ôl iddo ddod i law gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei wario ar uwchraddio'r system larwm tân yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn ogystal ag atgyweirio lifftiau a'r to.

**CAM GWEITHREDU**: Ar ôl i'r adroddiad ar yr Adolygiad Gateway gael ei gwblhau'n derfynol, byddai'n cael ei rannu â'r Ymddiriedolwyr er gwybodaeth. (PB)

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Gan y byddai etholiadau Senedd Cymru yn cael eu cynnal yn 2026, roedd yr amserlenni'n golygu na fyddai'r un o'r opsiynau a gyflwynir yn yr Achos Amlinellol Strategol yn cael eu cymeradwyo gan y weinyddiaeth bresennol.

ii. Y gobaith oedd y byddai gwaith mewnol ar yr Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gwblhau erbyn mis Mai 2026, a fyddai'n galluogi Amgueddfa Cymru i drafod y prosiect yn fanylach gyda'r weinyddiaeth newydd.

iii. Wrth gyfathrebu â'r staff a'r cyhoedd ynglŷn â'r prosiect, cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gau Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ond rhoddwyd pwyslais mawr ar y cafeat nad oedd dim byd wedi'i benderfynu eto. Pe bai cau'r safle yn angenrheidiol, byddai'r profiad ymarferol o gau Amgueddfa Lechi Cymru yn astudiaeth achos ardderchog i weithio ohoni.

**CAM GWEITHREDU**: Pwyntiau bwled cyfathrebu i gael eu llunio ar gyfer yr Ymddiriedolwyr er mwyn i bob un ohonynt allu ateb cwestiynau'n briodol ynglŷn â'r posibilrwydd o gau safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a phrosiect NMC 100 yn ei gyfanrwydd. (NE)

**CAM GWEITHREDU**: Y camau nesaf ar gyfer y prosiect yn dilyn yr Adolygiad Gateway cychwynnol i gael eu hamlinellu a'u rhannu â'r Ymddiriedolwyr er gwybodaeth (PB)

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**11. Cynnydd Gwaith Hanfodol ar Adeiladau**

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a ddywedodd y canlynol:

i. Gofynnwyd am y papur a gyflwynwyd er mwyn rhoi diweddariad a chyd-destun ychwanegol mewn perthynas â gwybodaeth a rannwyd â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn 2024.

ii. Roedd y fersiwn ddiwethaf o'r Strategaeth Adeiladau wedi nodi ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £68,000,000 ac wedi cytuno ar ymrwymiad i wario £3,000,000 ar brosiectau sy'n flaenoriaeth.

iii. Roedd proffil gwariant o £8,000,000 wedi cael ei ystyried yn y strategaeth ond penderfynwyd nad oedd hynny'n ddichonadwy am na ddarparodd Llywodraeth Cymru yr £8,000,000 o gyllid cyfalaf a oedd yn ofynnol. Felly, arweiniodd hyn at flaenoriaethu gwariant cyfalaf. Pe bai'r proffil gwariant £8,000,000 wedi bod ar gael, byddai'r gwaith adferol yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol wedi cael ei wneud ynghynt. Penderfynwyd bod y gwaith a flaenoriaethwyd cyn gwaith cynnal a chadw adferol yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn fwy tyngedfennol.

iv. Roedd y tîm wedi cyflawni llawer mwy ym mhob rhan o'r ystad na'r hyn a nodwyd yn wreiddiol yn y fersiwn ddiwethaf o'r Strategaeth Adeiladau.

Roedd Strategaeth Adeiladau newydd yn cael ei drafftio, a byddai'n ailasesu'r proffil gwaith a'r hyn y tybid y gellid ei gyflawni'n realistig.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

   i. Roedd y ffigur ôl-groniad o £68,000,000 yn deillio o'r arolwg o gyflwr yr ystad a gwblhawyd ar adeg ysgrifennu'r Strategaeth Adeiladau ddiwethaf. Fodd bynnag, mae gwaith ychwanegol annisgwyl sy'n ofynnol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn awgrymu bod yr arolwg cyflwr gwreiddiol hwn wedi pennu'r costau'n rhy isel. Roedd disgwyl i arolygon cyflwr newydd gael eu cynnal dros y flwyddyn i ddod, a byddai hynny'n rhoi ffigur ôl-groniad cynnal a chadw wedi'i ddiweddaru.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**12. Diweddariad CELF**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a ddywedodd y canlynol:

   i. Gwnaeth Panel Cynghori CELF gyfarfod ar 15 Medi 2025 a throsglwyddo CELF i Amgueddfa Cymru yn ffurfiol.

   ii. Roedd Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Cynghori newydd CELF yn cael ei ddrafftio.

   iii. Roedd elfennau Gwasanaeth Sifil Tîm Prosiect CELF wedi cael eu henwebu ar gyfer un o wobrau mewnol y Gwasanaeth Sifil, a byddai'r beirniadu terfynol ar gyfer y wobr hon yn digwydd ym mis Hydref 2025. Er mai dim ond i elfennau Gwasanaeth Sifil y prosiect roedd yr enwebiad hwn yn berthnasol, roedd yn dyst i'r holl waith gan bawb dan sylw.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

   i. Roedd pryder wedi cael ei fynegi yng nghyfarfod FPCC ar 4 Medi 2025 fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu i brosiect CELF fod yn hunangynhaliol o fis Mawrth 2027 ymlaen. Byddai hyn yn arwain at benderfyniadau anodd i Amgueddfa Cymru pe na bai cyllid ychwanegol ar gael, gan ei bod yn bosibl y byddai'n rhaid lleihau elfennau o weithgareddau craidd neu roi'r gorau iddynt yn gyfan gwbl er mwyn gallu parhau â CELF, neu y byddai'n rhaid dirwyn CELF i ben.

**CAM GWEITHREDU**: Trafodaeth ynghylch cyllid CELF a dyfodol y fenter i gael ei chynnig ar gyfer cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mehefin 2026. (CJP)

   **ii.** Gan ei fod bellach yn cael ei ystyried yn rhan o fusnes fel arfer, cynigiwyd y dylai'r cyfrifoldeb am oruchwylio CELF gael ei drosglwyddo i FPCC.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y cynnig i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio CELF i'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau.**

## 13. Diweddariad ar Risg a'r Gofrestr Risg

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd y staff yn archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu cynghorwyr allanol er mwyn helpu i asesu risgiau ac arferion sy'n gysylltiedig â llywodraethu.
   ii. Byddai'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnal ei gyfarfod nesaf ar 15 Hydref 2025.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Roedd sesiwn ar barodrwydd i dderbyn risg yn cael ei threfnu ar gyfer Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ar 10 Rhagfyr 2025, er mwyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr roi arweiniad i staff Amgueddfa Cymru.
   ii. Yn dilyn y materion diweddar yn labordai Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, roedd eitemau iechyd a diogelwch wedi cael eu diweddaru ar y Gofrestr Risg.
   iii. Dylai dangosfyrddau newydd Amgueddfa Cymru wella ansawdd y data a gofnodir a gwella'r wybodaeth a geir o'r data hynny, gan roi mwy o sicrwydd i'r staff a'r Ymddiriedolwyr.
   iv. Gan fod toriad pŵer cenedlaethol wedi cael ei ychwanegu at Gofrestr Risg Llywodraeth y DU, awgrymwyd y dylid ystyried cynnwys hyn ar Gofrestr Risg Amgueddfa Cymru.

**CAM GWEITHREDU**: Yr Uwch-dîm Arwain i weld pwy sydd yn y sefyllfa orau i ymchwilio i'r risg o doriad pŵer cenedlaethol a dod â'r mater yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol. (Uwch-dîm Arwain)

   v. Gofynnwyd a oedd y penderfyniad i gadw'r sgoriau gweddilliol ar gyfer rhai risgiau ar y Gofrestr Risg yr un fath, er bod mesurau rheoli ar waith, yn cyd-fynd â'r arferion gorau, a ph'un a allai cofnod hanesyddol clir o'r ffaith bod rhywbeth heb ddigwydd, hyd yn oed pe bai risgiau'n cael eu hystyried yn rhy anrhagweladwy eu natur i gael eu lliniaru'n effeithiol gan unrhyw fesur rheoli a roddir ar waith, roi sicrwydd i leihau tebygolrwydd gweddilliol risg benodol.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

## 14. Trosolwg o Drefniadau Diogelu Amgueddfa Cymru

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd adolygiad cychwynnol o'r Polisi Diogelu a gynhaliwyd gan ymgynghorydd allanol wedi dod i'r casgliad bod y polisi'n briodol ac yn

cydymffurfio â'r rheoliadau, ond bod angen gwneud rhai mân newidiadau o ran terminoleg a chyd-destun.

ii. Hefyd, roedd angen gwneud gwaith pellach i archwilio'r ffyrdd roedd rhai o'r Gweithdrefnau Diogelu'n cael eu rhoi ar waith. Roedd y Gweithdrefnau Diogelu presennol yn cydymffurfio â'r rheoliadau ond gellid eu gwneud yn fwy hygyrch.

iii. Roedd yr adran Adnoddau Dynol yn ymchwilio i hyfforddiant i uwchsgilio'r staff mewn meysydd diogelu perthnasol.

iv. Byddai adolygiad o'r Polisi a'r Gweithdrefnau yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2025.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Byddai'r Polisi Diogelu wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu (LEC) i gael ei gymeradwyo yn gyntaf, cyn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i roi sicrwydd.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**15. Memoranda Cyd-ddealltwriaeth**

**15.1 Amgueddfa Gelf Dinas Himeji**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a ddywedodd y canlynol:

i. Lluniwyd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn sgil ymweliad a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn gyda Llywodraeth Cymru. Roedd nifer o synergeddau wedi cael eu nodi rhwng arferion Himeji ac Amgueddfa Cymru.

ii. Hefyd, byddai Amgueddfa Gelf Dinas Himeji yn aml yn rhannu casgliadau a gwaith ag OPAM, sef amgueddfa yr oedd gan Amgueddfa Cymru femorandwm cyd-ddealltwriaeth â hi yn barod.

iii. Roedd cysylltiadau eraill rhwng Himeji â Chymru, gan fod Castell Himeji wedi'i efeillio â Chastell Conwy.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Roedd rhai o'r cynigion yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn uchelgeisiol iawn. Roedd Dinas Himeji yn ceisio ehangu ei harlwy diwylliannol er mwyn i ymwelwyr aros am fwy o amser, ac roedd geiriad y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn adlewyrchu hyn.

ii. Roedd gan Amgueddfa Cymru Fap Trywydd Rhyngwladol i arwain ei strategaeth ar ryngweithio â phartneriaid a sefydliadau rhyngwladol a fyddai ar waith tan ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026. Y gwledydd roedd yr Amgueddfa'n canolbwyntio arnynt oedd Japan, Iwerddon, Ffrainc ac Unol Daleithiau America.

iii. Nid oedd eithriadau i'r moratoriwm ar fenthyciadau yn cael eu gwneud ar gyfer sefydliadau rhyngwladol roedd gan Amgueddfa Cymru femoranda cyd-ddealltwriaeth â nhw. Roedd yr Amgueddfa wedi gofalu nad dim ond

cael mynediad at gasgliadau oedd nod memoranda cyd-ddealltwriaeth, ond y byddent yn arwain at bartneriaethau ystyrlon hefyd.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ag Amgueddfa Gelf Dinas Himeji.**

---

## 16. Adroddiad Blynyddol ar Bolisïau

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a ddywedodd y canlynol:
   i. Cyfarfu'r Penaethiaid Adran ym mis Awst 2025 i adolygu'r polisïau a blaenoriaethu'r rhai y dylid eu hadolygu gyntaf.
   ii. Roedd y gwaith hwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl a byddai'n cael ei arwain gan y Pennaeth Llywodraethu ar ôl i'r unigolyn hwnnw gael ei benodi. Byddai diweddariadau pellach ar y gwaith hwn yn cael eu rhoi maes o law.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Byddai'r pecyn gwaith cyffredinol ar gyfer asesu polisïau Amgueddfa Cymru yn cael ei drosglwyddo (yn amodol ar gymeradwyaeth) i ARAC, a fyddai wedyn yn rhaeadru polisïau unigol i bwyllgorau perthnasol eu goruchwylio o hynny ymlaen.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y cynnig i drosglwyddo'r gwaith ar adolygu polisïau blynyddol i ARAC.**

---

## 17. Rhestr o Faterion a Gedwir yn ôl ar gyfer y Bwrdd

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd yr eitem wedi cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau bod y materion a gedwir yn ôl ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn briodol a bod iaith sydd wedi dyddio yn y ddogfen yn cael ei diweddaru.
   ii. Ni chynigiwyd yr un newid mawr, ac nid oedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r eitemau a gyfeirir at Lywodraeth Cymru gan y byddai hynny'n gofyn am newid i'r Cytundeb Fframwaith â Llywodraeth Cymru.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Nodwyd bod gwall teipio yn Adran 2: *Conflicts of Interest*, lle y dylai *...annual Register of Interest which should be revised by...* gael ei gywiro i *...annual Register of Interest which should be reviewed by...*.

**CAM GWEITHREDU**: Adolygiad blynyddol o'r Rhestr o Faterion a Gedwir yn ôl ar gyfer y Bwrdd i gael ei ychwanegu at Ragolwg y Bwrdd. (CJP)

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y newidiadau i'r Rhestr o Faterion a Gedwir yn ôl ar gyfer y Bwrdd yn amodol ar gywiro gwallau teipio.**

**18. Rhestr o Awdurdod Ariannol Dirprwyedig**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd angen cynyddu awdurdod ariannol dirprwyedig Cyfarwyddwyr unigol er mwyn adlewyrchu sefyllfa weithredol bresennol Amgueddfa Cymru yn well.
   ii. Cynigiwyd y dylid cyflwyno proses gymeradwyo ar wahân ar gyfer prosiectau cyfalaf gan fod maint y prosiectau'n golygu bod angen cymeradwyaeth ar lefel uwch.
   iii. Ni ellid newid dirprwyaethau a roddir gan Lywodraeth Cymru, gan y byddai hynny'n golygu bod angen newid y Cytundeb Fframwaith â Llywodraeth Cymru.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:
   i. Nid oedd y rhestr wedi cael ei meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg ond, yn lle hynny, roedd wedi cael ei meincnodi yn erbyn gwariant ac arferion mewnol yn Amgueddfa Cymru.

**CAM GWEITHREDU**: Adolygiad blynyddol o'r Rhestr o Awdurdod Ariannol Dirprwyedig i gael ei ychwanegu at ragolwg FPCC. (CJP)

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y newidiadau i'r Rhestr o Awdurdod Ariannol Dirprwyedig.**

**19. Cylch Gorchwyl wedi'i Ddiweddaru ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC)**

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer ARAC wedi cael ei ystyried yng nghyfarfodydd ARAC ar 15 Mai 2025 a 24 Gorffennaf 2025 ac roedd y Pwyllgor wedi argymell y dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.**

**20. Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau Parhaol**

**20.1 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC)**

Noddwr a Chyflwynydd: Jan Williams OBE, Cadeirydd ARAC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jan Williams OBE, Cadeirydd ARAC, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd ARAC wedi canolbwyntio ar risg yn ei gyfarfod diwethaf a byddai ei waith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar arferion llywodraethu risg da ym mhob rhan o'r sefydliad.
   ii. Roedd papur diweddar gan yr Archwilwyr Mewnol wedi codi pryderon ynglŷn ag amseroedd ymateb y sefydliad i ymholiadau ganddynt.

**CAM GWEITHREDU**: Yr Uwch-dîm Arwain i asesu amseroedd ymateb i gwestiynau gan yr Archwilwyr Mewnol. (Uwch-dîm Arwain)

### 20.2 Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC)

Noddwr a Chyflwynydd: Rhys Evans, Cadeirydd FPCC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Rhys Evans, Cadeirydd FPCC, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd cais wedi cael ei wneud am wybodaeth ychwanegol ar gyfer cyfarfod FPCC yn y dyfodol am eitemau coll a heb eu lleoli ynghyd â'r perfformiad tebygol a ragwelir mewn perthynas â chatalogio'r casgliadau mewn modd cynhwysfawr.
   ii. Roedd cais wedi cael ei wneud am flaengynllun gwaith ar archifau corfforaethol a chofnodion ar gyfer cyfarfod FPCC ym mis Tachwedd 2025.
   iii. Sicrwydd rhannol a gafwyd ynghylch yr Adolygiad o'r Casgliadau, sef y rheswm dros ei ddychwelyd i'r Bwrdd ar gyfer trosolwg a gwybodaeth ychwanegol yn y cyfarfod hwn.

### 20.3 Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu (LEC)

Noddwr a Chyflwynydd: Richard Thomas, Cadeirydd LEC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu, ar ran Richard Thomas, Cadeirydd LEC, a ddywedodd y canlynol:
   i. Roedd rhythm o sesiynau archwiliad dwfn yn cael ei sefydlu er mwyn i LEC allu craffu'n effeithiol ar bob elfen o fewn ei gylch gwaith eang.

### 20.4 Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC)

Noddwr a Chyflwynydd: Freya Stannard, Cadeirydd PRCC

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Freya Stannard, Cadeirydd PRCC, a ddywedodd y canlynol:
   i. Cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan PRCC, byddai Cod Ymddygiad Staff wedi'i ddiweddaru, Polisi Cyfnod Prawf a Strategaeth Digidol, Data a Thechnoleg yn cael eu rhannu â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr er gwybodaeth.
   ii. Nodwyd bod diffyg gwybodaeth Adnoddau Dynol yng nghyfarfod diwethaf PRCC yn broblem ac y gall hynny olygu na fyddai'r Pwyllgor yn gallu cael sicrwydd yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU**: Gwnaed cais i eitem gael ei hychwanegu at agenda cyfarfod nesaf ARAC ar asesu'r risg sy'n gysylltiedig â diffyg mynediad at ddata hollbwysig ar lefel y Bwrdd a'i bwyllgorau. (CJP)

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

### 21. Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu.

**CAM GWEITHREDU**: Dyddiadau i gael eu gwirio yn erbyn dyddiadau gwyliau ysgol 2026/27 a 2027/28. (CJP)

**PENDERFYNWYD: Yn amodol ar wirio'r dyddiadau yn erbyn dyddiadau gwyliau ysgol, CYMERADWYWYD y dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer 2026/27 a 2027/28.**

---

### 22. Materion Llywodraethu'r Bwrdd

#### 22.1 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd cofnodion Sesiynau Cyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025 a 24 Gorffennaf 2025 eu hadolygu.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025 a'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2025.**

#### 22.2 Log Camau Gweithredu

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd y camau gweithredu a nodwyd ar y Log Camau Gweithredu o Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2025 eu hadolygu.
II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y **CAMAU GWEITHREDU** canlynol:
   i. *19/06/25 – 03. – Trustee Tour of NMC to be Arranged* i gael ei farcio fel cam sydd wedi'i gwblhau gan y bydd taith yn cael ei chynnal ar 10 Rhagfyr 2025.
   ii. *19/06/25 – 03. Ameerah Mai, Trustee to share information on and make introductions to key contacts at the Future Thinking Club* i gael ei dynnu o'r Log Camau Gweithredu, gan fod Ameerah Mai wedi ymddiswyddo fel Ymddiriedolwr.
   iii. *19/06/25 – 04. – Briefing Session on CELF arrangements to be arranged before September 2025 meeting for Trustees* i gael ei farcio fel cam sydd wedi'i gwblhau.

iv. *26/09/24 – 02. – Discussion to be held on the most appropriate platform to share positive experiences of the changes brought about by Shaping Our Future* i gael ei farcio fel cam sydd wedi'i gwblhau.

v. *12/12/24 – 21. – Marketing and Communications Teams to discuss X usage with other Arm's Length Bodies* i gael ei farcio fel cam sydd wedi'i gwblhau, gan fod cyfrif X Amgueddfa Cymru wedi cael ei gau.

vi. *27/06/24 – 3 (a) and (b) Introduction of Dashboard and RAG report for future Board and Committees* i gael dyddiad cwblhau newydd, sef mis Mehefin 2026.

**PENDERFYNWYD: NODWYD cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.**

### 22.3 Rhagolwg ar gyfer y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y rhagolwg o faterion i'w trafod a gyflwynwyd ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i Bwyllgorau Parhaol sydd i ddod am weddill 2025/2026 fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 2.

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

## 23. Cofnodion o Bwyllgorau Parhaol

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd cofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau Parhaol canlynol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eu hadolygu:

   i. Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC) – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2025

   ii. Pwyllgor Addysg ac Ymgysylltu (LEC) – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025

   iii. Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2025

   iv. Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC) – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

## 24. Cofnodion o Bwyllgorau Cynghori

Noddwr a Chyflwynydd: Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

I. Cafodd cofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau Cynghori canlynol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eu hadolygu:
    i. Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Amgueddfa Cymru – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2025
    ii. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Amgueddfa Lechi Cymru – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2025
    iii. Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Mewnol Amgueddfa Lechi Cymru – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2025
    iv. Grŵp Cynghori ar Ymchwil – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2025
    v. Bwrdd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf – Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2025

**PENDERFYNWYD: YSTYRIWYD yr eitem a rhoddwyd SICRWYDD i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

---

**25. Unrhyw Fater Arall**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Nodwyd llongyfarchiadau i Dr Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a oedd wedi cael cydnabyddiaeth arbennig gan Gymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru.
II. Rhoddwyd diolch arbennig i Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu, am y gwaith ardderchog y mae wedi'i wneud yn ystod ei flwyddyn gyntaf i sefydlu strwythur y pwyllgorau ac atgyfnerthu prosesau'r Bwrdd.
III. Roedd croeso i'r Ymddiriedolwyr fynd i Gynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd 2025, a oedd yn cael ei chynnal gan Amgueddfa Cymru yn Sain Ffagan.
IV. Yn olaf, rhoddwyd diolch i Llion Iwan, a fyddai'n ymddiswyddo o'i rôl fel Ymddiriedolwr ar ddiwedd y mis, am ei holl wasanaeth. Nododd y Cadeirydd y byddai'n cadw mewn cysylltiad â Llion, a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd yn S4C.

---

**Diwedd Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**